**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar y **5ed o Ragfyr 2024** am **7:00 yr hwyr.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Clifford Williams, John Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan) Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Jess Williams, Gwenno Emlyn Hughes (Penmorfa) Gwilym Evans (Prenteg) Cynghorydd Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Iddon Edwards (Penmorfa), Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion | CW yn cynnig a RP yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | Dim i'w adrodd. |
| 7. | Mynwentydd | <u>Mynwent Prenteg</u><br>Adroddwyd fod torrwr beddi wedi ceisio agor bedd newydd i ddau ym Mynwent Prenteg wythnos diwethaf ac wedi methu cael digon o ddyfnder i ddau oherwydd ei fod wedi dod ar draws craig ac ychydig o ddŵr. Bu i GE ymweld â'r fynwent, mae'n edrych yn debyg mai llechen sydd yno. Symudodd y torrwr beddi i'r rhes nesaf. Clerc i wneud cofnod o hyn.<br><br><u>Mynwent Bethel, Golan</u><br>Derbyniwyd tri phris ar gyfer cwblhau gwaith ym Mynwent Golan. Derbyniwyd y pris lleiaf. CW yn cynnig a HP yn eilio. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus | Adroddwyd fod y côn dal i fod ar y llwybr drws nesaf i'r Ganolfan Gymdeithasol yng Ngolan. Gofynnwyd a yw'r llwybr dal ar gau. Clerc i gysylltu â'r Uned Llwybrau.<br><br>Adroddodd y Clerc bod Idris Jones wedi bod allan i ymweld â llwybr Hendre Cennin a dywedodd nad oedd angen torri Coed Helyg. Soniwyd bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn gwneud gwaith yno yn ddiweddar. Clerc i gysylltu â'r Uned Llwybrau i weld pa waith sydd wedi bod yn digwydd yno. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi | <u>Pentrefelin</u> |

| | | |
|---|---|---|
| | | Soniwyd bod y ffordd rhwng yr Hen Swyddfa Bost a Glanrafon ym Mhentrefelin mewn cyflwr gwael ac wedi suddo gymaint bod y twll archwilio yn dipyn uwch na'r ffordd a bod peryg i rywun faglu. Mae'r ffordd yma yn llwybr cyhoeddus. SCH i ddilyn y mater yma i fyny.<br><br><u>Golan</u><br>Soniodd JT ei fod wedi derbyn ymholiad gan etholwr parthed ffens sydd wedi cael ei dynnu i lawr ar hyd y ffordd Ymwlch a'i daflu ar dir rhywun - y cwestiwn oedd os yw hyn yn cyfri fel tipio anghyfreithlon. Cynghorwyd os yw'r tipio wedi cael ei wneud ar dir preifat, yna cyfrifoldeb y tirfeddiannwr ydyw i waredu'r eitemau.<br><br>Adroddwyd fod rhiw Cefn Coch angen ei lanhau yn ofnadwy. Clerc i adrodd am hyn.<br><br><u>Penmorfa</u><br>Soniwyd fod bob dim wedi mynd yn dda iawn hefo'r llwythi anarferol drwy'r pentref a bod y cyfathrebu wedi bod yn wych.<br><br>Adroddwyd fod yna dipyn o ddŵr ar y ffordd fawr islaw'r ffynnon. Clerc i adrodd am hyn.<br><br><u>Garndolbenmaen</u><br>Gofynnwyd y cwestiwn os oedd y biniau halen am gael eu llenwi. Clerc i holi.<br><br>Llinellau dwbl melyn - SCH wedi derbyn cwyn. Soniwyd nad oedd yr achwynydd yn hapus gyda'r broses ymgynghori. Mae o wedi cysylltu gyda Mabon ap Gwynfor sydd wedyn wedi cysylltu hefo Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC. Bu i SCH gael sgwrs gyda Steffan ac egluro'r sefyllfa oedd yn bodoli yn y pentref gyda cheir yn parcio ar y ddwy ochor ac yn rhwystro bysus, gyda bysus wedi gorfod troi rownd a phobl wedi methu bysus. Nid yn unig hyn, os nad yw bysus yn gallu cael mynediad i'r pentref, ni all y gwasanaethau brys megis y gwasanaeth tân ac ambiwlans chwaith. Adroddodd SCH fod Steffan yn hapus gyda'r ymateb a'r rhesymeg dros ofyn am y llinellau melyn yma.<br><br><u>Bryncir</u><br>Dim i'w adrodd<br><u>Prenteg</u> |

| | | |
|---|---|---|
| | | Adroddwyd pryder am ddiogelwch gwyriadau yn yr ardal pan mae ffyrdd yn cael eu cau. Mae'r B4410 yn rhedeg mewn dau ddarn tra gwahanol o'r gyffordd gyda'r A498 ger Prenteg i Garreg gan groesi'r A4085 yn Garreg cyn i'r ail ran fynd trwy bentref Rhyd gan orffen yn y gyffordd gyda'r A487 ger yr Oakeley Arms. Mae'r ddau ddarn yn gwbl wahanol gyda'r darn cyntaf yn lôn lydan ar dir gwastad gyda throeon clir a llydan. Mae'r ail yn lôn gul fynyddig gyda throeon dall arni. Pan fydd gwyriad ar unai'r A498 neu'r A4085 o Bont Aberglaslyn am y môr ni ddefnyddir yr B4410 am ei bod yn ffordd dosbarth B er ei bod yn well lon nag y ddwy arall. Yn wir ychydig dros flwyddyn yn ôl collodd bedwar bachgen ifanc eu bywyd ar y A4085 a diwedd Tachwedd bu damwain arall nepell o Bont Aberglaslyn lle dim ond ffawd o daro coed sylweddol nad oedd drychineb arall. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â chyngor Gwynedd i ofyn yn garedig os ellir newid dynodiad yr B4410 i ddosbarth A rhwng Prenteg a Garreg a hefyd i ofyn am gefnogaeth gan Mabon ab Gwynfor.<br><br>Mae'r goeden oedd yn gwyro i'r ffordd ger Bwlch y Moch bellach wedi'i dorri.<br><br>Adroddwyd fod yno ddau lwyth o faw yn y maes parcio ym Mhrenteg, un ger y fynedfa a'r llall wrth ymyl y garej sydd yn berchen i eiddo 4 Tan y Bryn. Soniwyd hefyd fod y garej mewn cyflwr gwael ofnadwy ac yn beryg. Clerc i adrodd am hyn i Gyngor Gwynedd.<br><br>Soniwyd fod y draen ochr Prenteg i Tyrpeg yn parhau i flocio dro ar ôl tro ar ôl glaw mawr. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.<br><br>Parthed arwydd "Stop" Pont y Traeth, dim ymateb wedi'i dderbyn. GE am barhau i ddilyn y mater yma i fyny. |
| 10 | Safle Bws Bryncir | Yn dilyn cyfarfod safle gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) i drafod diogelwch y safle bws i gyfeiriad Caernarfon bu i YGC gynnal archwiliad manwl ar ddiogelwch y safle bws presennol ac adnabod lleoliad newydd posib ar gyfer y safle bws. Yn ôl YGC nid yw'r lleoliad presennol yn ddiogel am y rhesymau canlynol:<br>• Mae'r lleoliad presennol mor dynn<br>• Nid oes lled ddiogel o ran mynediad i'r safle bws<br>• Nid oes mynediad diogel i gerddwyr i'r bysus |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Dim croesfan ddiogel i'r safle bws<br>• Mae cyflymder y ffordd yn 40mya ac mae gwelededd o'r safle bws yn wael iawn. Mae'r "stopping site distance (SSD)" ar gyfer ffordd 40mya yn 120m, un cam islaw sydd ar gyfer isafswm absoliwt yw 90m.<br>• Mae gwelededd gwael o 30m i ffwrdd o'r aros fan bws a hyn pan oedd y llain ymyl wedi ei dorri'n ôl. Mae hyn yn bryder arall, pan mae'r llain ymyl wedi tyfu yn ôl mae gwelededd hyd yn oed yn waeth ac yn gwthio'r cerddwyr i gamu allan i'r ffordd i dynnu sylw gyrrwr y bysus.<br>• Nid yw'r lleoliad yn hygyrch<br><br>Mae Cyngor Gwynedd wedi darganfod safle llawer mwy diogel i osod safle bws newydd a hynny is i lawr ar y darn gwair o flaen y Mart.<br><br>Penderfynwyd cynnal ymgynghoriad gyda phreswylwyr Bryncir. Dosbarthwyd 20 llythyr/holiadur a dau gynllun newydd – un ar gyfer y lleoliad presennol ac un ar gyfer y lleoliad newydd posib. Cafwyd ymateb yn ôl gan 12. Mae 8 o blaid lleoliad newydd a 4 o blaid y lleoliad presennol. Mae'r Cyngor Cymuned am basio'r ymatebion yma ymlaen at Gyngor Gwynedd er mwyn iddynt eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud eu penderfyniad terfynol.<br><br>Os yw Cyngor Gwynedd yn penderfynu newid lleoliad y safle bws yma, awgrymwyd efallai bod angen ail edrych ar fesurau rheoli traffig drwy'r pentref e.e. efallai rhoi rhywbeth mewn lle i arbed pobl rhag goddiwedda. |
| 11 | Ymgynghoriad Etholiadau – Arolwg Cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 | Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:<br>• Byddai wedi bod yn ddefnyddiol i Gyngor Gwynedd ofyn set o gwestiynau penodol i gynghorau cymuned ateb. Hefyd, maent yn diffinio beth olygir wrth "gymuned" ond ddim yn gwneud yr un peth ar gyfer "wardiau".<br>• Mae'n debygol os nad oes mater yn codi o ran ffiniau lleol yna ni fydd cynnig i wneud addasiad? Byddai cael safbwynt y Cyngor wedi bod yn fuddiol i ysgogi trafodaeth. Hyd yn oed os mai'r bwriad yw cadw pob dim yr un peth. O ran nifer cynghorwyr yna eto, oes ganddynt gynnig penodol i ni ystyried – byddai hynny wedi bod yn fuddiol.<br>Clerc i basio'r sylwadau yma ymlaen i'r Adran Etholiadau fel ymateb i'r ymgynghoriad. |

| | | |
|---|---|---|
| 12 | Ymddiswyddiad Cynghorydd | Adroddwyd fod Michael Jones sydd yn gynghorydd cymuned dros Garndolbenmaen wedi penderfynu rhoi gorau iddi. Diolchwyd i Michael am ei waith a'i ymroddiad i'r Cyngor Cymuned dros y blynyddoedd. Clerc i hysbysebu'r sedd wag. |
| 13 | Is-bwyllgor Cyllid | Mae angen penderfynu ar y gyllideb ar praesept flwyddyn nesaf. Is-bwyllgor Cyllid i'w gynnal ar nos Iau'r 12fed o Ragfyr am 7yh yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan. |
| 14 | Gohebiaeth | a) Cynllunio – Penderfyniad Pwyllgor Craffu Cymunedau - Cynllunio a Chymunedau Cymraeg - Rhannwyd<br>b) Holiadur Mawr y Gwasanaeth Ieuenctid - Rhannwyd<br>c) Ymateb Cyngor Gwynedd Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg - Rhannwyd |
| 15 | Gohebiaeth Ychwanegol | a) Llywodraeth Cymru - Swm priodol o dan Adran 137 (4)(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Rhannwyd<br>b) Unllais Cymru – Bwletin Newyddion - Rhannwyd<br>c) Unllais Cymru – Canllaw Digidol – Defnydd E-bost – Rhannwyd<br>ch) Unllais Cymru – Canllaw Digidol – Caffael - Rhannwyd<br>d) Unllais Cymru – Enwi Parthau - Rhannwyd<br>dd) Unllais Cymru – Arfer Da ar gyfer Gwefannau Cynghorau - Rhannwyd<br>e) Unllais Cymru – 10 Peth Pwysig - Rhannwyd<br>f) Ymateb Llywodraeth Cymru – Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg - Rhannwyd |
| 16 | Cynllunio | Rhestrau: 4/11, 11/11, 18/11, 25/11<br><br>NP2/16/389J: Beudy Parc, Golan, LL51 9AQ – Codi uchder bondo a chrib yr annedd bresennol gan gynnwys yr estyniad arfaethedig . Dim gwrthwynebiad.<br><br>C24/0947/36/DT: 9 Rhesdai Bryncir, Penmorfa, LL49 9RY – Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer Mitsubishi PUZ – WM50VHA 50KW yn sefyll yn rhydd. Dim gwrthwynebiad.<br><br>C24/1008/36/LL: Llecheiddior Uchaf, Bryncir, LL51 9EZ - To uwchben iard a storfa slyri presennol. Dim gwrthwynebiad. |

| | | |
|---|---|---|
| 17 | Materion Ariannol | **Ceisiadau am arian:**<br>• Eisteddfod Garndolbenmaen<br>• Ysgol Garndolbenmaen<br>• Canolfan Gymdeithasol Golan<br>• Apêl Cronfa i Bawb Urdd Gobaith Cymru<br>I'w trafod yn y cyfarfod misol ym mis Chwefror.<br>**Monitro'r Gyllideb:** Dim Gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br>Cyflog Clerc = £326.87<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £20.00<br>HMRC = £81.62<br>Veolia = £26.02<br>HSBC = £8.00<br>Bus Shelters Ltd = £1,637.82<br><br>**Derbyniadau:**<br>Zurich Municipal Insurance = £1,264.85<br><br>**Balansau Cyfrifon Banc:**<br><br>**Cadw:** £42,659.45<br>**Cyfredol:** £1,562.92 |
| 18 | Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan | • Ymddiswyddiad Cynghorydd<br>• Holiadur Pobl Ifanc<br>• Ymgynghoriad Shelter Bws<br>• Gwaith Mynwent Bethel<br>• Cost Atgyweirio Shelter Bws Garndolbenmaen |